CABINET

COFNODION Y CYFARFOD AML-LEOLIAD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA A THRWY MICROSOFT TEAMS AR DDYDD MERCHER, 25AIN IONAWR 2023 AM 1PM

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd S. Morgan – Cadeirydd

Cynghorwyr:

J. Pritchard (Aelod Cabinet dros Ffyniant, Adfywio a Newid Hinsawdd), C. Andrews (Aelod Cabinet dros Addysg a Chymunedau), S. Cook (Aelod Cabinet dros Dai), N. George (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol ac Eiddo), E. Forehead (Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol), P. Leonard (Aelod Cabinet dros Gynllunio a Diogelu'r Cyhoedd), C. Morgan (Aelod Cabinet dros Wastraff, Hamdden a Mannau Gwyrdd), Y Cynghorydd J. Simmonds (Aelod Cabinet dros Briffyrdd a Chludiant) ac E. Stenner (Aelod Cabinet dros Gyllid a Pherfformiad).

Ynghyd â:

C. Harrhy (Prif Weithredwr), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai), M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Economi a'r Amgylchedd).

Yn bresennol hefyd:

S. Harris (Pennaeth Gwasanaethau Ariannol a Swyddog Adran 151), R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro), N. Taylor-Williams (Pennaeth Tai), J. Lougher (Rheolwr Datblygu Chwaraeon a Hamdden), J. Lloyd (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor), S. Pugh (Pennaeth Cyfathrebu), E. Sullivan (Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

TREFNIADAU COFNODI A PHLEIDLEISIO

Atgoffodd yr Arweinydd y rheini a oedd yn bresennol bod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw, ac y byddai recordiad ar gael i'w weld ar wefan y Cyngor, ac eithrio trafodaethau sy'n ymwneud ag eitemau cyfrinachol neu eithriedig. Cliciwch Yma i Wylio.

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

3. COFNODION – 30AIN TACHWEDD 2022

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30ain Tachwedd 2022 fel cofnod cywir.

4. COFNODION – 14eg RHAGFYR 2022

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14eg Rhagfyr 2022 fel cofnod cywir.

5. BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET – I'W NODI

Cafodd Blaenraglen Waith y Cabinet ei chyflwyno i'r Cabinet, a oedd yn manylu ar yr adroddiadau a drefnwyd tan 26ain Gorffennaf 2023.

Roedd yr Arweinydd yn falch o weld bod Blaenraglen Waith y Cabinet wedi cael ei llenwi mor bell ymlaen llaw ac atgoffodd y Cabinet, fel dogfen fyw, y gallai newid.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod y Blaenraglen Waith yn cael ei nodi. Drwy godi dwylo, cytunwyd yn unfrydol.

6. DIWEDDARIAD AR GYLLIDO BRYN CARNO

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn diweddaru'r Cabinet ar benderfyniad terfynol Llywodraeth Cymru ar setliad cyllid y cynllun inswleiddio waliau allanol aflwyddiannus ar 86 o dai ar Ystâd Bryn Carno, Rhymni.

Nododd y Cabinet benderfyniad Llywodraeth Cymru i ddyfarnu grant ffurfiol o £1.903 miliwn mewn perthynas â'r gwaith adfer ar y 50 o eiddo perchen-feddianwyr yr effeithiwyd arnyn nhw ym Mryn Carno, serch hynny, roedd hynny'n golygu bod angen i gyfraniad Tai Caerffili gynyddu £563,1000 i gyfanswm cyfraniad y prosiect o £1,195,800. Cadarnhaodd swyddogion y byddai'r cyllid yn dod o Gyfrif y Cynllun Busnes a Refeniw Tai cyfredol.

Croesawodd y Cabinet yr adroddiad ac y gellid datrys y problemau hyn i drigolion Bryn Carno, yr effeithiwyd yn andwyol ar eu bywydau yn sgil yr insiwleiddio aflwyddiannus, ac y gallent bellach gael sicrwydd bellach bod camau unioni ar eu ffordd.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion a gynhwyswyd yn adroddiad y Swyddog yn cael eu cymeradwyo, a thrwy Microsoft Forms, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

Oherwydd y rhesymau a gynhwyswyd yn adroddiad y Swyddog, PENDERFYNWYD: -

1. Nodi diweddariad a phenderfyniad Llywodraeth Cymru.

2. Cynllun diwygiedig, costau, amserlen cyflawni a chyfraniad arian cyfatebol ychwanegol y Cyfrif Refeniw Tai mewn perthynas ag eiddo sy'n berchen i'r Cyngor, i gyflawni'r cynllun deiliadaeth niwtral gan Tai Caerffili.

7. DYFODOL CLWB BOWLIO DAN DO ISLWYN

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn diweddaru'r Cabinet am y sefyllfa ddiweddaraf mewn perthynas â Chlwb Bowlio Dan Do Islwyn ac amlinellwyd y cyfleoedd a'r cyfyngiadau i'r Cyngor ar hyn o bryd. Roedd yr adroddiad hefyd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i

fwrw ymlaen â phroses gaffael i sicrhau gweithredwr masnachol i reoli'r cyfleuster ac i wneud cytundeb priodol.

Roedd y Cabinet am ddiolch i Aelodau Pwyllgor Clwb Bowls Dan Do Islwyn ac i'r Swyddogion J. Lougher a M.S. Williams am eu holl waith caled. Croesawodd y Cabinet yr adroddiad fel enghraifft wych o gydweithio llwyddiannus ac o'r hyn y gellir ei gyflawni wrth gydweithio a gweithio'n wahanol. Gall cyfleusterau cymunedol o'r fath gael eu hadfywio a'u cadw.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion a gynhwyswyd yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo, a thrwy Microsoft Forms, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

Oherwydd y rhesymau a gynhwyswyd yn adroddiad y Swyddog, PENDERFYNWYD:-

1. Awdurdodi swyddogion i fwrw ymlaen â phroses gaffael i sicrhau cynnig masnachol ar gyfer rheoli'r cyfleuster, gyda chytundeb newydd i'w wneud gyda'r darparwr llwyddiannus am gyfnod o 10 mlynedd (gyda'r opsiwn i ymestyn) gan gychwyn ar ddechrau'r tymor bowls dan do yn 2023 (Medi 2023).

2. Cymeradwyo'r cytundeb masnachol sy'n sicrhau bod y Bowls yn parhau i fod y prif bwyslais o fewn y cyfleuster a bod yr elfen hon yn parhau i gael ei threfnu gan Bwyllgor Bowls Dan Do Islwyn.

8. PRAWF LLES Y CYHOEDD

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i Brawf Lles y Cyhoedd a daethant i'r casgliad, ar ôl pwyso a mesur, bod lles y cyhoedd o gadw'r eithriad yn drech na lles y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth a: -

PENDERFYNWYD yn unol ag Adran 100(4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1972 gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod oherwydd y datgeliad tebygol iddynt o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 14 a 16 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1972.

9. YMESTYN YMDDEOLIAD HYBLYG OHERWYDD AMGYLCHIADAU EITHRIADOL – GWASANAETHAU CORFFORAETHOL

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion a gynhwyswyd yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo, a thrwy Microsoft Forms, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

Oherwydd y rhesymau a gynhwyswyd yn adroddiad y Swyddog, PENDERFYNWYD cymeradwyo'r argymhelliad yn 3.1.

Daeth y cyfarfod i ben am 13:20.

Cymeradwywyd a llofnodwyd fel cofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wneir yn y cyfarfod i'w gynnal ar 22ain Chwefror 2023.

_____

CADEIRYDD